| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD | **18 MEDI 2023** |
| TEITL | **DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU** |
| PWRPAS | **I dderbyn a nodi diweddariad chwarterol gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru** |
| ARGYMHELLIAD | **Nodi a derbyn y wybodaeth** |
| AWDUR | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

Mae hwn yn adroddiad rheolaidd sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau ar y gwaith a wneir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PCC) ar ran yr wyth cronfa CPLlL yng Nghymru.

Mae PPC bellach wedi'i hen sefydlu, gyda Link Fund Solutions wedi'i benodi fel gweithredwr i ddarparu gwasanaethau a reoleiddir gan yr FCA a Russell Investments sy'n darparu opsiynau buddsoddi ar gyfer asedau rhestredig. Northern Trust yw'r ceidwad byd-eang penodedig. Hymans Robertson yw'r cynghorydd llywodraethu a goruchwylio ac mae Robeco yn darparu gwasanaethau pleidleisio ac ymgysylltu i PPC yn unol â'i gyfrifoldebau a'i ymrwymiadau stiwardiaeth.

## 2. DIWEDDARIAD CHWARTERTOL CYD- BWYLLGOR LLYWODRAETHU (CLl)

Cynhaliwyd cyfarfod y Cydbwyllgor Llywodraethu (CLl) sef corff gwneud penderfyniadau y Bartneriaeth, yn ffurfiol ar 19ain o Orffennaf 2023. Mae’r awdurdod lletya wedi darparu crynodeb o’r eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod hwnnw sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i’r adroddiad hwn. Mae’r Cynllun Busnes wedi ei adolygu fel ar 31ain Mawrth 2023 ac wedi ei gynnwys yn Atodiad 2.

## 3. DIWEDDARIAD GWEITHREDWR

Mae copi o’r diweddariad chwarterol diweddaraf gan Link Fund Solutions wedi’i atodi o dan Atodiad 3.

Mae'r diweddariad yn rhoi cipolwg o'r ystod lawn o is-gronfeydd buddsoddi PPC ar 31ain Mawrth 2023.

Ar hyn o bryd mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn buddsoddi mewn chwech o’r deg is-gronfa ac ar 31 Mawrth 2023 roedd y rhain fel a ganlyn:

- **Cyfleoedd Byd-Eang - £430.1m**
- **Twf Byd- Eang- £426.9m**
- **Marchnadoedd Datblygol - £57.6m**
- **Goddefol Byd-Eang - £786.2m**
- **Credyd Aml Ased - £200.6m**

- **Strategaeth Bond Absoliwt- £386.1m**

Er mwyn gweithredu dyraniad asedau strategol diwygiedig y Gronfa, mae’r Gronfa wedi buddsoddi’n ddiweddar yn y Gronfa Credyd Byd- Eang a fydd yn cael ei gynnwys yn y diweddariad gweithredwr nesaf.

## 4. ADRODDIADAU PERFFORMIAD AR 31AIN MAWRTH 2023

Mae’r adroddiadau perfformiad i’w gweld yn atodiad 4.

Cafwyd perfformiad cadarnhaol ym mis Ionawr a mis Mawrth ond bu anwadalrwydd yn y farchnad canol y chwarter ym mis Chwefror. Dechreuodd marchnadoedd ecwiti y flwyddyn galendr yn gryf gyda buddsoddwyr yn cael eu hannog gan arwyddion bod chwyddiant yn cael ei ddofi a'r posibilrwydd y bydd Tsieina yn ailagor o gyfyngiadau Covid-19 yn hwb i'r galw. Ar y llaw arall, gostyngodd ecwiti'n fras ym mis Chwefror yng nghanol cynnydd araf ar chwyddiant a data economaidd gwydn, a allai fod yn uwch am gyfnod hirach.

Mae perfformiad is-gronfeydd Gwynedd yn cael eu monitro gan swyddogion ac fel rhan o adolygiad buddsoddiad chwarterol gan Hymans Robertson ac nid oes pryderon wedi ei nodi.

## 5. DATBLYGIADAU Y DYFODOL

- Mae Cronfa PPC Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy wedi’i lawnsio ym Mehefin 2023, ac mae’r trafodion pontio wedi gorffen.
- Mae'r gwaith o ymuno ag is-gronfa Credyd Preifat PPC ac isadeiledd caeedig bellach wedi'i gwblhau ac mae'r gwaith yn parhau gyda'r is-gronfa isadeiledd penagored yn parhau.
- Unwaith y bydd y gweithgaredd gyda'r is-gronfeydd hyn wedi'i gwblhau, bydd sylw PPC yn troi at lawnsio is-gronfa Ecwiti Preifat PPC a datblygu datrysiadau eiddo. Mae Schroders wedi'i benodi fel dyranwr ar gyfer yr is-gronfa Ecwiti Preifat.

## 6. ARGYMHELLIAD

I dderbyn a nodi y gwybodaeth.